**ADRODDIAD I'R CABINET**
19 Chwefror 2015

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** CYLLIDEB REFENIW 2014/15 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter o'r Gyllideb Refeniw (rhagolygon 2014/15 ar sail sefyllfa 31 Rhagfyr 2014), ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

---

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 15 Gorffennaf 2014 ac adolygiad ail chwarter ar 25 Tachwedd. Mae'r adroddiad yma yn diweddaru'r rhagolygon yn dilyn adolygiad trydydd chwarter.

Amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae sefyllfa gorwariant tebygol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bron wedi ei haneru ers y rhagolygon ail chwarter. Gwelir fod y darlun cyffredinol yn arddangos rheolaeth gadarn o'r cyllidebau adrannol, er bod angen gweithredu er mwyn atal tueddiadau yn y gyllideb Addysg.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol os yn briodol.

**3. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – gorwariant £599k**

Bu gostyngiad sylweddol o'r lefel gorwariant blaenorol yn dilyn cyfuniad o amgylchiadau ac ymdrechion da gan yr Adran i reoli'r cyllidebau. Fodd bynnag, mae rhai meysydd yn parhau i roddi pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor, yn arbennig y gwariant ar Ofal Cartref Pobl Hyn. Mae'r Adran Oedolion yn cymryd camau i geisio cryfhau rheolaeth ariannol berthnasol, ac yn arbennig i sicrhau bydd rheolaeth gadarn ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2015/16.

**4. Adran Addysg – gorwariant £361k**

Bu cynnydd go sylweddol mewn gwariant ers Medi ar Integreiddio Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ymddengys fod y galw wedi dwysau ac mae'r sefyllfa yn destun adolygiad gan Bennaeth newydd yr Adran. Adroddir ymhellach ar ganlyniad ac ymhlygiadau ariannol yr adolygiad yma yn ein adroddiad alldro.

**5. Camau nesaf ac amserlen**

Cyflwynir adroddiad 'alldro' i'r Cabinet ym mis Mehefin er mwyn cytuno ar sefyllfa derfynol 2014/15. Bydd yr adroddiad alldro yn argymell trosglwyddiadau terfynol rhwng gwahanol gyllidebau.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n dda nodi bod y mwyafrif o'r adroddiad yn cadarnhau rheolaeth ariannol gadarn ar draws y Cyngor. Ar ben hynny, mae'r gwelliant sydd i'w weld o ran yr Adran Oedolion a Llesiant i'w groesawu er bod peth gorwariant yn bryder mewn cyfeiriadau eraill. Mae hyn oll yn cadarnhau unwaith eto bwysigrwydd rheolaeth gofalus ar batrymau ymrwymo a gwario ar draws y Cyngor.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.